PROSIECT GWYRDD DATGANIAD I'R WASG

9 Ionawr 2009

Y cyngor yn cytuno ar gynllun gwastraff

Mae Caerdydd a phedwar awdurdod lleol arall wedi cytuno i weithio mewn partneriaeth i symud ymlaen gyda chynllun sydd â'r bwriad o chwilio am ateb i'r broblem o waredu gwastraff wedi i ni ailgylchu a chompostio gymaint â phosibl ym mhob ardal.

Mae Gweithrediaeth Cyngor Caerdydd, a'i chymheiriaid yng Nghaerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a'r Fro wedi cymeradwyo cynllun busnes ar gyfer Prosiect Gwyrdd.
Mae'r pump awdurdod yn delio â 475,000 tunnell o wastraff bob blwyddyn, sy'n 40 y cant o holl wastraff Cymru.

Mae'r partneriaid wedi ymrwymo i ailgylchu a chompostio cymaint o wastraff â phosibl, ond bydd wastad gwastraff na ellir ei ailgylchu. Mae'r bartneriaeth yn chwilio am ateb i'r broblem hon, gan nad yw tirlenwi yn opsiwn cynaliadwy.
Pan fo gwastraff yn dadelfennu pan nad oes aer ar gael, cynhyrchir methan – ac mae hyn yn un o'r prif ffactorau y tu ôl i newidiadau hinsawdd.

Nid oes unrhyw benderfyniadau wedi'u gwneud eto ar y dechnoleg y byddir yn ei defnyddio na ble fydd yr adnodd, ond gallai fod ar dir sydd eisoes ym meddiant un o'r cynghorau neu gyrff eraill, gan gynnwys Llywodraeth Cynulliad Cymru.
Mae'r bartneriaeth wedi edrych ar 27 o ddulliau posibl o ddelio gyda gwastraff, neu gyfuniadau o wahanol ddulliau, ond nid oes penderfyniad eto ar y dechnoleg.

Mae'r achos busnes cychwynnol wedi ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Bydd yn rhaid iddo hefyd gwrdd â'r gwahaniaeth rhwng gwir gost y cynllun a'r hyn y gall y bartneriaeth ei hun ei fforddio.
Dywedodd y Cynghorydd Colin Mann, Cadeirydd Grŵp Llywio'r Aelodau: "Mae Prosiect Gwyrdd yn bartneriaeth effeithiol yn edrych ar ateb i wastraff gweddilliol.

> "Mae gan bob awdurdod nod clir i ailgylchu a chompostio gymaint o wastraff â phosibl tra'n gweithio gyda'i gilydd i adennill gwerth o'r gwastraff na ellir ei ailgylchu neu'i gompostio."

a gyhoeddwyd gan prosiect gwyrdd
e-bost: info@prosiectgwyrdd.co.uk
dros y ffôn: 029 20 717523